

<i>At:</i>	Keith Rutherford, Cadeirydd Bwrdd Rheoli GTI Sir Fynwy a Thorfaen
<i>Copi at:</i>	Gweler y rhestr ar y diwedd
<i>Oddi wrth:</i>	Helen Mercer, Prif Arolygydd Cynorthwyol (Cyfiawnder Ieuenctid)
<i>Dyddiad Cyhoeddi:</i>	29 Gorffennaf, 2015

## **Adroddiad Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) gwaith gyda throseddwy'r ifanc yn Sir Fynwy a Thorfaen**

Cynhaliwyd yr arolygiad o 22-24 Mehefin 2015 fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau o waith gyda throseddwy'r ifanc. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Prawf EM. Bydd copi yn cael ei ddarparu i arolygiaethau partner i lywio eu harolygiadau, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI).

### **Cyd-destun**

Nod y system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc. Mae asesiad a chynllunio o ansawdd da ar ddechrau dedfryd yn hanfodol i gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol. Archwiliwyd 14 o achosion o blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu yn ddiweddar ac a oedd yn cael eu goruchwyllo gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen (GTI). Lle bynnag y bo'n bosibl, cafodd hyn ei wneud ar y cyd â'r rheolwr achos a ddyrannwyd, a oedd felly yn cynnig cyfle dysgu ar gyfer staff.

### **Crynodeb**

Y gyfradd aildroseddu a gyhoeddwyd<sup>1</sup> ar gyfer Sir Fynwy a Thorfaen oedd 42.9%. Roedd hyn yn waeth na'r flwyddyn flaenorol o 36.3% ac yn waeth na chyfartaledd Cymru a Lloegr o 36.6%.

Yn gyffredinol, canfuom fod perfformiad Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen yn gyson â'n canfyddiadau o'n harolygiad blaenorol yn 2010. Roedd staff yn cael eu cefnogi'n dda yn eu gwaith ac roeddent yn ymwneud yn gadarnhaol â phlant a phobl ifanc a sefydliadau partner. Mae lle i wella ansawdd ymarfer trwy sicrhau bod yr holl asesiadau a chynlluniau yn cael eu hategu gan ddadansoddiad o broblemau achos perthnasol ac yn integreiddio materion amrywiaeth pan fo angen. Byddai sicrhau cysondeb rhwng staff yn y cyswllt hwn yn helpu i wella ansawdd y gwasanaethau a gynigir gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gyffredinol.

### **Sylwadau ar yr arolygiad yn Sir Fynwy a Thorfaen**

#### **1. Lleihau aildroseddu**

- 1.1. Gwelsom fod cyngor digonol wedi ei roi i lysoedd i helpu gyda dedfrydu ym mhob achos.
- 1.2. Mae asesiadau a chynlluniau yn ffurfio sylfaen ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Mewn 3 o'r 14 o achosion a adolygwyd nid oedd yr asesiadau o'r hyn oedd yn debygol o wneud i

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd yn Ebrill 2015 yn seiliedig ar gyfraddau aildroseddu deuaidd ar ôl 12 mis ar gyfer carfan Gorffennaf 2012 - Mehefin 2013. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

blentyn neu berson ifanc droseddu o safon ddigon da. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd yr asesiadau hyn yn ddigon dadansoddol. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y cynlluniau achos ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny ac roedd yn golygu bod cwmpas y gwaith a ragwelwyd gyda nhw yn cyfyngu ar y posibiladau o gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Roedd asesu a chynllunio yn agwedd ar ymarfer a oedd yn gryf ar gyfer llawer o aelodau staff ac roedd lle i wella sefyllfa'r tîm yn gyffredinol drwy sicrhau cysondeb rhwng y staff o ran ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau a gynhrychwyd.

- 1.3. Mae amgylchiadau teuluol a phersonol plant a phobl ifanc yn gallu newid yn gyflym ac mae hyn yn gallu dangos yr angen am newid cyfeiriad wrth oruchwylio. O ganlyniad, mae angen i asesiadau a chynlluniau i ymdrin â materion troseddu gael eu hadolygu er mwyn cadw i fyny â datblygiadau mewn achosion. Nid oedd tri o'r naw o asesiadau a adolygwyd wedi cael eu gwneud yn ddigon da. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn yr adolygiadau o'r cynlluniau cysylltiedig.
- 1.4. Cafodd cynlluniau gwaith i ymdrin ag aildroseddu posibl eu cryfhau gan y cyfleuster cymorth ailsefydlu gwirfoddol. Roedd hyn yn cefnogi plant a phobl ifanc a oedd yn dod i ddiwedd yr oruchwyliaeth ond oedd angen cefnogaeth barhaus, rhai oedd yn dod allan o'r ddalfa, neu yn y broses o drosglwyddo i oruchwyliaeth gwasanaeth prawf oedolion. Roedd y cynllun yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys cefnogaeth cludiant cychwynnol ar gyfer plant a phobl ifanc wrth iddynt gysylltu â'u swyddogion prawf a dechrau goruchwyliaeth yn y lleoliad hwnnw.

## **2. Diogelu'r cyhoedd**

- 2.1. Gwelwyd asesiad risg o niwed i eraill oedd o ansawdd da mewn 12 o'r 14 o achosion a adolygwyd gennym. Lle y gallai plentyn neu berson ifanc beri risg o niwed i eraill, rydym yn disgwyl gweld cynllun i leihau'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd. Mewn saith o'r naw achos perthnasol, roedd hyn yn amlwg a gallem weld sut y gallai'r risg o niwed gael ei reoli. Roedd cynllunio o'r fath yn foddhaol ar gyfer dau allan o'r tri achos perthnasol o fod yn y ddalfa. Yn yr achos oedd yn y ddalfa nad oedd â chynllun digonol i ymdrin â'r risg o broblemau niwed, roedd y cynllun ar gyfer rhyddhau ac i ddelio â rhwystrau i ymgysylltu yn annigonol.
- 2.2. Yn achos Helen<sup>2</sup>, roedd rheolwr achos y GTI yn allweddol wrth symbylu ystod o wasanaethau partneriaeth i fynd i'r afael â'i gwendidau a'r risg o niwed yr oedd hi yn ei beri. Yr oedd Helen yn agored i niwed, mewn perygl o gael ei chamddefnyddio'n rhywiol ac roedd ei ffrwydradau dig yn rhoi pobl eraill mewn perygl o niwed. Roedd rheolwr achos y GTI wrth wraidd proses i weithio gydag eraill i greu a gweithredu cynllun cynhwysfawr a welodd Helen yn byw mewn amgylchedd cefnogol, gan fyfyrion ar ei hymddygiad ac ar ei rhagolygon yn y dyfodol, ac yn cael mynediad i addysg a gwasanaethau datblygiadol eraill.
- 2.3. Mae adolygiadau cynlluniau rheoli risg yn bwysig gan eu bod yn sicrhau bod y gwaith yn parhau i leihau'r risg o niwed a berir i eraill. Dim ond mewn pump o'r wyth achos perthnasol, yr oedd cynlluniau i ymdrin â'r risg o niwed i eraill wedi cael eu hadolygu yn foddhaol. Ar gyfer un achos, nid oedd yr adolygiad wedi cael ei wneud. Roedd y ddau arall o ansawdd annigonol oherwydd nad oeddent yn adlewyrchu un ai newidiadau mewn amgylchiadau, neu'r materion amrywiaeth, oedd yn perthyn i'r plant neu bobl ifanc.
- 2.4. Lle'r oedd dioddefwr amlwg neu bosibl, fe wnaethom nodi bod y risg o niwed yr oeddent yn ei wynebu wedi cael ei reoli'n effeithiol mewn pump o'r wyth achos perthnasol.

---

<sup>2</sup> Mae'r enwau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu newid i ddiogelu hunaniaeth y plentyn neu'r person ifanc

- 2.5. Clywsom gan staff fod arolygu rheoli risg o niwed wedi cael ei ddarparu gan y rheolwyr ym mron pob un o'r achosion perthnasol, ond roedd hyn yn amlwg yn y cofnod achos mewn llai na hanner yr achosion. Nid oedd diffygion yn ansawdd rhai asesiadau a chynlluniau wedi cael sylw.

### **3. Amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc**

- 3.1. Mewn 12 o'r 14 o achosion, roedd anghenion diogelu a bregusrwydd wedi cael eu hasesu'n ddigonol yn ystod y cam cychwynnol, ond dim ond hanner yr wyth achos perthnasol a allai ddangos bod yr asesiadau wedi cael eu hadolygu yng ngoleuni amgylchiadau oedd yn newid.
- 3.2. Roedd achos Alun, 17 oed, yn dangos gwerth cysylltiad y GTI gyda Fforwm Achosion Cymhleth Torfaen. Daeth hyn ag ystod o asiantaethau oedd yn ymwneud â gofalu am blant a phobl ifanc agored iawn i niwed at ei gilydd. Drwy'r fforwm hwn roedd y GTI yn gallu cyfrannu at yr asesiadau amlasiantaeth o risgiau ac anghenion, a chydlynu eu gwaith gyda gweithwyr cymdeithasol a phobl eraill. Roedd Alun wedi elwa o'r trefniadau hyn gan fod yr asiantaethau wedi gallu nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer ei ofal ac, yn arbennig, er mwyn canolbwyntio ar ei anghenion llety.
- 3.3. Mewn tri chwarter yr achosion perthnasol, roedd cynllunio ar gyfer gwaith rheoli a lleihau bregusrwydd o ansawdd da. Yn y rhai nad oeddent, roedd ffactorau amrywiaeth perthnasol ar goll, cyfnewid gwybodaeth gydag asiantaethau eraill yn annigonol a pheidio ag ymdrin â chamddefnyddio sylweddau wedi tansellio ansawdd y gwaith.
- 3.4. Mewn saith allan o'r deg achos perthnasol, canfuom adolygiadau digonol, trwy gydol y ddedfryd, i ymdrin ag anghenion diogelu a bregusrwydd.
- 3.5. Mewn 10 o'r 13 achos perthnasol roedd digon o sylw wedi ei roi i ymdrin ag anghenion iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc.
- 3.6. Roedd tystiolaeth o oruchwylio gwaith yn effeithiol gan reolwyr i ymdrin â diogelu a bregusrwydd mewn dros hanner yr achosion.

### **4. Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei gwasanaethu**

- 4.1. Roedd y rhan fwyaf o asesiadau ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu yn ddigonol ac roedd sylw priodol wedi ei roi i'r materion hyn ym mron pob un o'r adroddiadau cyn dedfrydu. Mae'r gwaith hwn yn bwysig gan ei fod yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ffurfio perthynas waith effeithiol gyda rheolwyr achos y GTI.
- 4.2. Roedd y plentyn neu'r person ifanc neu eu rhieni /gofalwyr wedi bod yn ymwneud â'r holl waith o baratoi pob un o'r adroddiadau cyn dedfrydu. Canfuom hefyd fod ganddynt ymgysylltiad da i gynnal asesiadau a chynlluniau pellach. Er ein bod wedi canfod bod sylw yn cael ei roi yn y rhan fwyaf o gynlluniau i ffactorau amrywiaeth ac i rwystrau posibl i ymgysylltu, nid oedd hyn bob amser yn cael ei ystyried yn ddigonol o ran oedran ac aeddfedrwydd a materion teuluol. Mewn rhai achosion, roedd peidio â rhoi sylw i'r materion hyn yn cyfyngu ar allu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i weithio tuag at gyflawni newid cadarnhaol gyda'r plentyn neu'r person ifanc.
- 4.3. Roedd lefelau cyswllt â'r plant neu bobl ifanc oedd yn destun goruchwyliaeth yn cadw cydbwysedd da rhwng hyrwyddo cydymffurfiaeth, darparu ymyriadau i helpu i gyflawni newid cadarnhaol ar gyfer yr unigolyn a'u dal i gyfrif. Roedd pump o'r plant neu bobl ifanc yn bodloni gofynion eu dedfryd yn llawn. Roedd ar naw angen gwaith gan y rheolwr achos i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Ym mhob achos lle nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydweithredu yn ôl yr angen, roedd ymateb y GTI yn briodol. Arweiniodd hyn at iddynt naill ai ail-ymgysylltu â'r gwaith, neu, mewn dau achos, gael eu

dychwelyd i'r llys ar gyfer achosion tor-amod. Nododd un arolygydd: *"Roedd yr achos hwn yn dangos creadigrwydd a hyblygrwydd wrth geisio sicrhau bod person ifanc o'r gymuned deithio yn cwblhau ei orchymyn cyfeirio'n llwyddiannus. Roedd y person ifanc a'i deulu yn gyndyn o ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ac yn rhoi llawer o rwystrau ar draws cymryd rhan yn y gwaith. Cynigiodd gweithiwr y GTI hyblygrwydd wrth wneud apwyntiadau. Fe wnaeth hi hefyd ddefnyddio deunyddiau a oedd yn hygyrch ac yn denu diddordeb y person ifanc. Fe wnaeth negeseuon a nodiadau atgoffa syml am apwyntiadau, ynghyd â nodiadau atgoffa am ganlyniadau peidio â chydymffurfio, helpu'r person ifanc i gwrdd â'i rwymedigaethau i'r gorchymyn. Nid oedd wedi aildroseddu nac wedi dod i sylw'r heddlu drwy gydol y cyfnod goruchwyliaeth".*

## **Rheolaeth weithredol**

Gwelsom fod y GTI wedi ymateb i'r arolygiad blaenorol yn 2010 drwy weithredu ystod o fesurau oedd yn anelu at wella ansawdd eu gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys sefydlu proses sicrhau ansawdd i wella nifer o feysydd ymarfer a chyflwyno hyfforddiant Asesu, Cynllunio, Ymyrraeth a Goruchwyllo (APIS) i helpu gyda hyn. Yn fwy diweddar, sefydlodd y GTI fforwm cynllunio achosion i gefnogi gwaith mewn achosion cymhleth. Roedd ymarferwyr wedi croesawu'r rhain a datblygiadau ymarfer eraill ac wedi eu hymgorffori yn eu gwaith. Yn y cyfnod yn arwain at yr arolygiad wynebodd y GTI nifer o heriau, gan gynnwys symud at system rheoli achosion newydd a bod â swydd rheolwr gweithredol yn wag am beth amser.

Roedd rheolwyr achos yn gwerthfawrogi goruchwyliaeth o'u hymarfer gan reolwyr. Roedd bron pob un yn disgrifio cydlofnodi a goruchwyllo gwaith gan reolwyr fel proses effeithiol. Roeddem yn barnu bod goruchwyliaeth staff a threfniadau sicrhau ansawdd wedi cael effaith gadarnhaol mewn llawer o'r achosion a arolygwyd, ond nid oedd tystiolaeth o hyn yn rheolaidd yn y ffeiliau achos ac nid oedd wedi sicrhau'r ansawdd gofynnol ym mhob achos. Yn gyffredinol, dywedodd staff eu bod yn derbyn goruchwyliaeth effeithiol a bod gan eu rheolwyr llinell y sgiliau a'r wybodaeth i'w helpu i wella ansawdd eu gwaith.

Adroddodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant diweddar i'w galluogi i wneud eu swydd bresennol, ond roedd nifer yn dweud nad oeddent wedi cael digon o hyfforddiant o ran darparu ymyrraethau ac ymdrin â materion amrywiaeth, er eu bod yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant diweddar mewn anghenion llaferydd, iaith a chyfathrebu. Canfuom y gallai'r rhan fwyaf o ymarferwyr ddangos ymwybyddiaeth o egwyddorion ymarfer effeithiol a pholisiau a gweithdrefnau lleol i ymdrin â materion ymarfer yn ymwneud â chydymffurfio, bregusrwydd a risg o niwed.

## **Cryfderau allweddol**

- Ansawdd y cyngor a roddwyd i'r llysoedd.
- Ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn yr asesiadau.
- Roedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ymdrin â materion cydymffurfio a pheidio ag ymgysylltu.

## **Meysydd y mae angen eu gwella**

- Mae'r holl asesiadau a chynlluniau yn cael eu llywio gan ddadansoddiad o faterion perthnasol.
- Mae angen i faterion amrywiaeth lywio asesiadau a chynlluniau perthnasol.
- Mae angen i adolygiadau adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol yn amgylchiadau plant a phobl ifanc.
- Mae angen i dystiolaeth o effaith ansawdd goruchwyliaeth rheolwyr ar achosion gael ei gofnodi'n well.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom gan staff yn y GTI i hwyluso ac ymgysylltu â'r arolygiad hwn. A fyddech cystal â chyfleu ein diolch, a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o ganfyddiadau'r arolygiad hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr arolygiad, cysylltwch â'r arolygydd arweiniol, sef Joseph Simpson. Gellir cysylltu ag ef yn [joe.simpson@hmiprobation.gsi.gov.uk](mailto:joe.simpson@hmiprobation.gsi.gov.uk) (07917 084764).

Copi at:	
Rheolwr y TTI	<i>Jacalyn Richards</i>
Prif Weithredwr Awdurdod Lleol Cyngor Sir Fynwy	<i>Paul Matthews</i>
Prif Weithredwr Awdurdod Lleol Cyngor Sir Torfaen	<i>Alison Ward</i>
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Fynwy	<i>Simon Burch</i>
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Torfaen	<i>Sue Evans</i>
Aelod Etholedig Arweiniol dros Wasanaethau Plant Cyngor Sir Fynwy	<i>Geoff Burrows</i>
Aelod Etholedig Arweiniol dros Wasanaethau Plant Cyngor Sir Torfaen	<i>David Yeowell</i>
Aelod Etholedig Arweiniol dros Drosedd Cyngor Sir Fynwy	<i>Bob Greenland</i>
Aelod Etholedig Arweiniol dros Drosedd Cyngor Sir Torfaen	<i>David Daniels</i>
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent	<i>Ian Johnston</i>
Cadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant	<i>Forbes Duncan</i>
Cadeirydd Mainc y Llys Ieuencid	<i>Diana Hayman Joyce</i>
Pennaeth y BCI yng Nghymru	<i>Dusty Kennedy</i>
Pennaeth Goruchwylio a Chymorth i'r BCI yng Nghymru	<i>Sarah Cooper</i>
Staff cyswllt y BCI	<i>Malcolm Potter, Paula Williams, Linda Paris, Julie Fox</i>
Swyddfa'r Wasg y BCI	<i>Zena Fernandes, Adrian Stretch</i>
Estyn	<i>Alun Connick, Jassa Scott</i>
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	<i>Nigel Brown, Bobbie Jones</i>
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	<i>Robin Bradfield</i>
Arolygiaeth Cwnstablïaeth EM	<i>Paul Eveleigh</i>
Swyddfa Archwilio Cymru	<i>Huw Rees</i>

Nodyn 1: Fel arolygiaeth annibynnol, mae Arolygiaeth Prawf EM yn rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ar effeithiolrwydd gwaith gyda'r rheiny sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu, mae'n hyrwyddo gwelliant parhaus gan y sefydliadau yr ydym yn eu harolygu ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y system gyfiawnder troseddol.

Nodyn 2: Rydym yn casglu tystiolaeth yn erbyn meini prawf y Sgrinio Ansawdd Byr, sydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EM - <http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation>.

Nodyn 3: I ofyn am gopi papur o'r adroddiad hwn, cysylltwch â Chyfathrebu Arolygiaeth Prawf EM yn [communications@hmiprobation.gsi.gov.uk](mailto:communications@hmiprobation.gsi.gov.uk) neu ar 0161 240 5336.